

# **Arolygiad (Lle Rhoddwyd Rhybudd) o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)**

Delweddu Diagnostig, Ysbyty  
Tywysog Philip

Dyddiad arolygu: 23/24 Chwefror  
2021

Dyddiad cyhoeddi: 25 Mai 2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhydycar**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	27
4.	Beth nesaf? .....	37
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio... 39	
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	41
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	42
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	43

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad o bell lle rhoddwyd rhybudd o dan Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o Adran Delweddu Diagnostig Ysbyty Tywysog Philip ar 23 a 24 Chwefror 2021.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad o bell yn cynnwys dau o Arolygwyr AGIC ac Uwch-swyddog Diagnostig Clinigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Public Health England, yn rhinwedd ei swydd fel cyngorydd.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn:

- Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017
- Cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a chyrraedd Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o gydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, o'r dystiolaeth a archwiliwyd gennym, roedd cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau yn dda. Dangosodd trafodaethau â'r staff fod ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau yn unol â'r Rheoliadau hefyd yn dda, ar y cyfan.

Roedd y cleifion a'r staff a gwblhaodd yr arolwg yn gadarnhaol am eu profiadau yn yr adran.

Roedd yr adran yn cael ei rheoli'n dda ac roedd sylwadau gan y staff yn dangos eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan uwch-aelodau o'r staff.

Rhoddodd trafodaethau â rheolwyr a staff yr adran yn ystod ein harolygiad sicrwydd bod trefniadau ar waith i sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn ddiogel. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod gweithdrefnau, polisïau a phrotocolau'r cyflogwr yn hwyr yn cael eu hadolygu a bod angen eu diweddarau hefyd.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion yn nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaethau a ddarperir yn yr adran
- Roedd cyfranogiad yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol<sup>1</sup> yn gadarnhaol yn ystod yr arolygiad a gyda'r ysbyty yn gyffredinol

---

<sup>1</sup> Ystyr Arbenigwr Ffiseg Feddygol yw unigolyn sy'n meddu ar wybodaeth, hyfforddiant a phrofiad i weithredu neu gynghori ynghylch materion sy'n ymwneud â chymhwyso ffiseg ymbelydredd at gysylltiad meddygol ym maes radioleg ddiagnostig, meddygaeth niwclear a radiotherapi, y mae ei gymhwysedd yn hyn o beth wedi'i gydnabod gan awdurdod cymwys. O dan y Rheoliadau,

- Roedd uwch-aelodau o'r staff yn croesawu ein harolygiad ac yn dangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i'r arolygiad
- Roedd ymgysylltiad y staff yn gadarnhaol.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod gweithdrefnau, polisiau a phrotocolau'r cyflogwr yn gyfredol, bod fersiynau'n cael eu rheoli a'u hadolygu'n amserol a'u bod yn adlewyrchu arferion gwirioneddol
- Dylai'r rhaglen archwilio a'r dogfennau cysylltiedig gynnwys amserlenni ac amllder ar gyfer yr archwiliadau
- Sicrhau bod enw'r ymarferydd sy'n cyfiawnhau'r cysylltiad yn cael ei gofnodi ar gyfer pob cysylltiad meddygol ac anfeddygol
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn yr adran yn cael hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol.

---

mae'n ofynnol i bob cyflogwr sy'n cyflawni cysylltiadau meddygol benodi arbenigwr ffiseg feddygol addas.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Cefndir y gwasanaeth

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 1 Hydref 2009, ac mae'n darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, ysbyty ac iechyd meddwl i drigolion Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

Mae'r bwrdd iechyd cyfan yn gwasanaethu poblogaeth o dros 380,000 o bobl. Mae Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli, yn ysbyty aciwt a agorodd yn 1990. Mae oddeutu 225 o welyau cleifion mewnol sy'n cefnogi'r gwasanaethau aciwt a dewisol ar gyfer Meddygaeth Gyffredinol; Llawdriniaeth Gyffredinol; Orthopedig; Wroleg; Strôc Acíwt ac Adsefydlu.

Roedd y cyfarpar yn yr adran pelydr-X yn Ysbyty Tywysog Philip yn cynnwys:

- Unedau pelydr-X cyffredinol
- Radiograffeg gyffredinol symudol gan gynnwys fflworosgopeg braich-C ac uned fach braich-C
- Uned fflwrosgopeg gyffredinol
- Sganiwr tomograffeg gyfrifiadurol (CT)
- Uned mamograffi sefydlog
- Delweddu Cyseinnedd Magnetig (MRI) a sganwyr Uwchsain.

Roedd yr adran yn cyflogi nifer o staff, gan gynnwys radiolegwyr ymgynghorol, radiograffwyr sy'n adrodd, sonograffyddion sy'n adrodd, radiograffwyr ac ymarferwyr cynorthwyol. Roedd yr adran yn darparu gwasanaeth y tu allan i oriau sy'n cael ei staffio gan radiograffwyr a darparwr trydydd parti. Mae'r adran yn cael cyngor a chymorth hefyd gan dri arbenigwr ffiseg feddygol a ddarperir gan yr adran Ffiseg Ymbelydredd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.



## Ansawdd profiad y claf

*Fel rhan o'n harolygiad o bell, gwnaethom ystyried rhai o'r trefniadau a oedd ar waith i gyfathrebu â chleifion a chael adborth ganddynt ar y gwasanaethau a ddarperir.*

Roedd yr adborth gan y cleifion yn nodi eu bod yn fodlon iawn â'r gwasanaeth a ddarperir gan staff yr adran radioleg.

Roedd adborth y staff hefyd yn gadarnhaol o ran y safonau gofal a ddarperir.

Roedd gan yr adran brosesau ar waith i sicrhau bod modd cyfathrebu'n effeithiol â'r cleifion.

Roedd trefniadau ar waith i gasglu adborth gan gleifion ar y gwasanaethau a ddarparwyd. Cynhaliwyd arolygon cleifion ac roedd proses glir ar gyfer delio â'r pryderon a dderbyniwyd gan y gwasanaeth ac ymateb iddynt.

Cyn yr arolygiad, datblygodd AGIC arolwg cleifion ar-lein er mwyn galluogi cleifion i fynegi eu barn a'u profiadau o ran y gwasanaethau a ddarperir yn yr adran. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r arolwg hwn drwy boster a arddangoswyd yn yr adran yn ystod y cyfnod cyn ein harolygiad, yn ogystal ag ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol AGIC. Cwblhawyd cyfanswm o 14 o holiaduron. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Hoffwn longyfarch pob un o'ch cydweithwyr ar y gwaith gwirioneddol wych y mae pob un ohonoch yn ei wneud o dan amgylchiadau mor eithriadol"*

*"Gwasanaeth a phroffesiynoldeb gwych"*

*"Rwy'n hynod ddiolchgar i'r ddau aelod o staff a oedd yn bresennol pan gefais fy sgan gyda'r nos, yn gweithio oriau hir i ddarparu gofal yn ystod y cyfnod hwn lle mae gwasanaethau cleifion o dan bwysau mawr. Byddwn i wedi teimlo'n fwy diogel pe bai staff benywaidd a staff eraill yn bresennol ym mhrif ardaloedd yr ysbyty ac yn yr adran radioleg ond roedd proffesiynoldeb y staff yn gysur"*

Estynnwyd gwahoddiad hefyd i'r staff gwblhau arolwg drwy holiadur ar-lein tebyg, er mwyn cael gwybod am yr amodau gwaith a chael eu barn ar safon y gofal. Derbyniwyd 15 o holiaduron wedi'u cwblhau gan amrywiaeth eang o staff ar bob gradd. Dywedodd yr ymatebwyr eu bod wedi bod yn eu rôl gyfredol am gyfnodau a oedd yn amrywio o lai na 6 mis i dros 10 mlynedd. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr wedi bod yn eu swydd ers dros 10 mlynedd.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno mai gofalu am y cleifion oedd blaenoriaeth bennaf y sefydliad ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cytuno bod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan gleifion. Roedd mwyafrif cyffredinol y staff yn cytuno y byddent yn argymell y sefydliad fel lle i weithio a gwnaethant nodi y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad pe byddai angen triniaeth ar ffrind neu berthynas.

*"Mae'n bleser bod yn rhan o dîm mor ddiwyd a chefnogol"*

*"Gall mantoli'r gyllideb gymryd blaenoriaeth dros bryderon staff weithiau"*

*"Mae fy lle gwaith yn amgylchedd hapus a diogel i weithio ynddo. Mae'r rheolwyr yn gefnogol iawn tuag ataf ac mae drws eu swyddfa ar agor bob amser"*

## **Gofal ag urddas**

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno iddo gael ei drin ag urddas a pharch gan y staff yn yr ysbyty. Roedd y cleifion o'r farn y gallent gynnal eu preifatrwydd, eu hurddas a'u gwedduster yn ystod eu hapwyntiadau.

Roedd pob un o'r cleifion ond un yn teimlo bod y staff wedi gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod yn gallu siarad â'r staff am eu triniaeth heb i neb arall glywed.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym hefyd eu bod bob amser yn fodlon ar ansawdd y gofal y gallant ei roi i'r cleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod y cleifion a/neu eu perthnasau yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynglŷn â'u gofal bob amser.

## **Gwybodaeth i gleifion**

Darparwyd copi i ni o'r poster a oedd yn rhoi manylion y buddiannau a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag archwiliad pelydr-X i gleifion, y dywedwyd wrthym ei fod yn cael ei arddangos yn yr ardaloedd aros. Roedd y poster hwn wedi cael ei ddatblygu gan un o'r arbenigwyr ffiseg feddygol. Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod o'r farn eu bod yn cael eu cynnwys

cymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth. Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael gwybodaeth glir i ddeall risgiau a buddiannau eu hopsiynau o ran triniaeth.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu amdany'n nhw eu hunain ar ôl eu triniaeth. Fodd bynnag, dywedodd hanner y cleifion nad oeddent wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig o ran gyda phwy y dylid cysylltu i gael cyngor ar sgil-efeithiau posibl unrhyw driniaethau a gawsant. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried mynd i'r afael â'r mater hwn.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Dywedodd y staff wrthym fod dolen sain wedi'i gosod yn y brif dderbynfa er mwyn helpu cleifion sy'n gwisgo cymhorthion clyw i gyfathrebu â'r staff.

Dywedodd y staff wrthym fod gwasanaethau cyfieithu dros y ffôn ar gael pe bai claf nad oedd yn gallu cyfathrebu yn Saesneg yn dod i'r uned. Dywedwyd wrthym hefyd fod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael yn yr adran, pe bai'n well gan glaf gyfathrebu yn Gymraeg.

Dywedodd hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y staff wedi gofyn iddynt ym mha iaith y byddai'n well ganddynt siarad a, lle bo'n berthnasol, dywedodd y mwyafrif eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn cyfathrebu yn Gymraeg. Roedd yn well gan bob un o'r cleifion ond un i gyfathrebu yn Saesneg. Dywedwyd wrthym fod llythyrau dwyieithog yn cael eu hanfon at gleifion a bod arwyddion dwyieithog ar hyd a lled yr adran. Dywedwyd wrthym hefyd fod y staff oedd yn medru'r Gymraeg yn gwisgo llinyn gwddf priodol i ddangos eu bod yn siarad Cymraeg.

### **Gofal amserol**

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu trefnu apwyntiad ar adeg a oedd yn gyfleus iddynt. Roedd 35 y cant o'r cleifion wedi ymweld â'r lleoliad diwethaf o fewn y deufis diwethaf.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod y cleifion wedi cael gwybod am unrhyw oedi i amseroedd aros pan oeddent yn yr adran, yn enwedig mewn ardaloedd fel CT neu Uwchsain lle roedd angen aros mwy nag 20 munud. Yn yr achosion hyn, rhoddwyd cynnig i'r cleifion adael yr adran a dychwelyd o fewn amser penodedig.

Er y dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael gwybod am amseroedd aros yn yr adran wrth gyrraedd, nid oedd desg y dderbynfa bob amser yn ymwybodol o

unrhyw oedi byr. Yn ogystal, dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi aros llai na 15 munud i gael eu triniaeth. Fodd bynnag, dywedodd ychydig dros hanner y cleifion nad oeddent wedi cael gwybod wrth gyrraedd faint o amser y byddent yn debygol o orfod aros cyn cael eu triniaeth. Dylai'r adran nodi ffyrdd pellach o sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o unrhyw oedi.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i hysbysu'r cleifion sy'n ymweld â'r adran am amseroedd aros presennol mewn ffordd well.

## Gofal Unigol

### Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Disgrifiwyd y broses o gael adborth gan y cleifion, gyda chodau Ymateb Cyflym<sup>2</sup> i'w gweld ym mhob ystafell, er mwyn i gleifion eu sganio. Dywedwyd wrthym fod y broses hon wedi'i chychwyn gan y Radiograffydd Arolygol newydd. Fodd bynnag, nid oedd y cleifion yn cael eu hysbysu am ganlyniadau'r adborth. Dylai'r bwrdd iechyd roi gwybodaeth i'r cleifion am eu hymatebion i arolygon, gyda chmau gweithredu'n cael eu cymryd mewn ymateb i'r adborth.

Dywedodd pob un ond un o'r aelodau o staff a gwblhaodd holiadur wrthym fod adborth ar brofiad y claf (e.e. arolygon cleifion) yn cael ei gasglu. Dywedodd y mwyafrif eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar yr adborth ar brofiad cleifion. Dywedodd pob un ond un o'r ymatebwyr fod yr adborth yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus yn eu cyfarwyddiaeth neu eu hadran.

Dywedodd y staff wrthym, pan fyddai pryderon yn cael eu codi gan y cleifion ar lafar, y byddai ymdrechion yn cael eu gwneud, lle y bo'n bosibl, i siarad â'r claf ar unwaith i geisio helpu i ddatrys unrhyw faterion neu bryderon yn gyflym ac yn

---

<sup>2</sup> Math o god bar matrices (neu far cod dau ddimensiwn) yw cod QR. Label optegol y mae modd i beiriant ei ddarllen yw cod bar sy'n cynnwys gwybodaeth am yr eitem y mae wedi'i lynu wrthi. Yn ymarferol, mae codau QR yn aml yn cynnwys data ar gyfer lleolydd, dynodwr neu olrheiniwr sy'n nodi gwefan neu gais.

effeithlon. Lle nad oedd hyn yn bosibl, dywedwyd wrthym y byddai'r cleifion yn cael eu cyfeirio at Wasanaeth Cymorth i Gleifion<sup>3</sup> y Bwrdd Iechyd, a oedd yn rheoli'r pryderon hyn.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi gwybod i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd er mwyn rhoi gwybodaeth i gleifion am eu hymatebion i arolygon, gyda chamau gweithredu'n cael eu cymryd mewn ymateb i'r adborth.

---

<sup>3</sup><https://biphdd.gig.cymru/gofal-iechyd/gwasanaethau-a-thimau/gwasanaethau-cymorth-i-gleifion-adborth-a-chwynion/>

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Yn gyffredinol, roedd y dystiolaeth a oedd ar gael a'r trafodaethau a gynhaliwyd â'r staff yn dangos bod cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau yn dda.

Roedd ymwybyddiaeth y staff o'u cyfrifoldebau o dan y Rheoliadau yn dda ar y cyfan.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau ar gael. Roedd y rhain yn helpu'r adran i gydymffurfio â gofynion y rheoliadau fel y maent yn gymwys i radioleg. Fodd bynnag, roedd y rhain yn hwyr yn cael eu hadolygu.

Amlygwyd meysydd i'w gwella mewn perthynas â chofnodi enwau ymarferwyr y tu allan i oriau sy'n cyfiawnhau cysylltiadau ar gyfer archwiliadau CT.

## Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

### Dyletswyddau Cyflogwr

#### *Adnabod cleifion*

The roedd gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer adnabod unigolion sy'n destun cysylltiad meddygol yn nodi'n glir y staff hynny sy'n gyfrifol am adnabod cleifion yn gywir. Roedd disgwyl i'r staff ofyn i'r cleifion gadarnhau eu henw, eu dyddiad

geni a'u cyfeiriad. Roedd hyn yn unol â chanllawiau presennol y DU<sup>4</sup>. Roedd y weithdrefn hefyd yn disgrifio'r ffyrdd amgen y mae'n rhaid i'r staff eu defnyddio pe na bai cleifion yn gallu cadarnhau eu manylion ar lafar eu hunain. Roedd y weithdrefn yn nodi'r broses y dylai'r staff ei dilyn i gadarnhau manylion adnabod cleifion pediatrig.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r weithdrefn gywir i adnabod cleifion. Hefyd, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd ein holiadur wrthym fod y staff wedi gofyn iddynt gadarnhau eu manylion personol cyn dechrau eu harchwiliad.

#### *Unigolion sy'n gallu beichiogi (holi am feichiogrwydd)*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ar waith mewn perthynas â'r broses ar gyfer cynnal ymholiadau i unigolion o oedran beichiogi ynglŷn â beichiogrwydd, cyn iddynt ddod i unrhyw gysylltiad. Nod y weithdrefn hon oedd sicrhau bod ymholiadau o'r fath yn cael eu gwneud mewn modd safonol a chyson. Roedd y weithdrefn yn nodi'r staff a oedd yn gyfrifol am wneud yr ymholiadau perthnasol, ac yn amlinellu'r broses i'w dilyn yn dibynnu ar ymateb yr unigolyn. Roedd y weithdrefn hefyd yn cynnwys ystod oedran y cleifion y dylid eu holi ynglŷn â beichiogrwydd, yn unol â chanllawiau'r DU.

Gwelsom feysydd yn y weithdrefn lle byddai'n fuddiol cynnwys manylion ychwanegol ar gyfer y staff. Roedd y rhain yn cynnwys eglurder ynghylch holi'r rhai o dan 16 oed, sicrhau bod y staff yn glir ynghylch y weithdrefn, a chynnwys manylion yn ymwneud ag amrywiaeth o ran rhywedd.

Dywedwyd wrthym fod posterï wedi'u harddangos yn yr adran yn hysbysu'r cleifion y dylid siarad ag aelod o'r staff os ydynt yn feichiog neu'n meddwl y gallent fod yn feichiog. Roedd hyn yn bwysig er mwyn lleihau unrhyw niwed posibl i blentyn yn y groth o ganlyniad i gysylltiad ag ymbelydredd ìoneiddio.

---

<sup>4</sup> Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018); Guidance to the Ionising Radiation (Medical Exposure) Regulations 2017

## Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff adolygiad o weithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ei gynnal mewn perthynas ag ymholiadau i feichiogrwydd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod digon o fanylion am y broses y dylai'r staff ei dilyn, ar gyfer pob math o glaf y gallant ddod ar ei draws. Yn ogystal, dylai'r adolygiad hwn gynnwys y ffordd y caiff amrywiaeth o ran rhywedd ei hystyried a'i rheoli.

### *Cysylltiadau â delweddu anfeddygol*

The roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith a oedd yn nodi'r meini prawf ar gyfer unigolion sy'n dod i gysylltiad â delweddu anfeddygol<sup>5</sup>. Dim ond gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig y byddai atgyfeiriadau ar gyfer archwiliadau delweddu anfeddygol yn cael eu derbyn.

### *Canllawiau atgyfeirio*

Roedd gweithdrefn atgyfeirio a meini prawf atgyfeirio'r cyflogwr yn cael eu dogfennu i roi canllawiau ar wneud atgyfeiriad ar gyfer cysylltiad meddygol.

Rhoddwyd gwybod i ni fod canllawiau atgyfeirio clinigol Coleg Brenhinol y Radiolegwyr (iRefer) ar gael i bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol drwy fewnrwyd y bwrdd iechyd.<sup>6</sup> Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'n harolygiad yn deall y canllawiau a'r broses atgyfeirio a oedd ar waith.

---

<sup>5</sup> Diffinnir delweddu anfeddygol fel unrhyw gysylltiad delweddu bwriadol lle nad prif fwriad y cysylltiad yw bod o fudd i iechyd yr unigolyn sy'n destun y cysylltiad. Mae'r fath gysylltiadau'n cynnwys rhai a gaiff eu cyflawni at ddibenion yswiriant neu gyfreithiol heb reswm meddygol, neu gysylltiadau a gyflawnir os amheuir bod cyffuriau'n cael eu cuddio.

<sup>6</sup> <https://www.irefer.org.uk/>



CurrentlyAr hyn o bryd, atgyfeiriadau papur yw'r holl atgyfeiriadau a gyflwynir i'r adran ar gyfer delweddu, gan ddefnyddio ffurflen atgyfeirio'r adran radioleg. Ar ôl eu derbyn, cofrestrwyd yr holl atgyfeiriadau ar y system gwybodaeth radioleg electronig (RadIS)<sup>7</sup> a sganiwyd y ffurflen atgyfeirio ar system RadIS er mwyn cael cofnod parhaol.

Nododd y ffurflen hunanasesu fod blaenoriaethu'n seiliedig ar angen clinigol, maes yr atgyfeiriad ac amseroldeb yr atgyfeiriadau. Roedd cleifion o'r Uned Mân Anafiadau a chleifion allanol yn tueddu i gael eu gweld o fewn awr. Roedd yr ysbyty wrthi'n gweithredu gwasanaeth "cerdded i mewn" ar gyfer cleifion practis cyffredinol a oedd yn cael pelydr-X cyffredinol, felly roedd y cleifion hyn yn cael eu gweld yn brydlon hefyd. Defnyddiwyd ffurflen ar wahân i atgyfeirio cleifion yr amheuwyd bod canser arnynt, a chafodd yr atgyfeiriadau eu gwneud cyn pen 10 diwrnod lle bo'n bosibl.

Nododd y staff, o ran cleifion lle roedd angen archwiliadau wedi'u hamseru'n benodol ar gyfer y dyfodol, fod yr atgyfeiriad yn cael ei gofnodi ar RadIS a bod y ffurflen ei chadw ar ffeil sy'n cael ei monitro gan staff gweinyddol. Wedyn, byddai'r cleifion hyn yn cael llythyrau apwyntiad ar yr amser cywir ar gyfer eu harchwiliad.

Darparwyd tystiolaeth inni o'r archwiliad clinigol o ansawdd cwblhau ffurflenni atgyfeirio, dyddiedig Gorffennaf 2020. Edrychodd yr archwiliad hwn ar sampl o ffurflenni atgyfeirio i gadarnhau tystiolaeth o awdurdodiad, archwiliadau hunaniaeth, cwestiynau ar feichiogrwydd a chofnodi gwybodaeth am ddsau. Un o nodau eraill yr archwiliad oedd cadarnhau a gofnodwyd gwerthusiad clinigol o bob cysylltiad. Nodwyd cydymffurfiaeth o 100 y cant mewn perthynas â'r archwiliad hwn.

### **Dyletswyddau'r ymarferydd, y gweithredwr a'r atgyfeiriwr**

Roedd system ar waith i nodi'r gwahanol fathau o weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag atgyfeirio a chyflawni archwiliadau radioleg ar gyfer cleifion, a gwahanol rolau'r gweithwyr proffesiynol hynny. Roedd gweithdrefn y cyflogwr o ran sut i roi Rheoliadau 2017 ar waith yn yr adran yn nodi pwy, yn ôl unigolyn

---

<sup>7</sup> Mae System Gwybodaeth Radioleg Cymru (WRIS), sy'n cael ei hadnabod gan yr enw RadIS2, yn cyflawni gweithrediadau fel amserlennu ac adroddiadau clinigol cleifion sy'n cynnwys delweddau meddygol fel pelydrau-X, sganiau CT ac MRI ac uwchsain.

neu grŵp staff, all fod yn atgyfeirwyr<sup>8</sup>, yn ymarferwyr<sup>9</sup> ac yn weithredwyr<sup>10</sup> (a elwir yn ddeiliaid dyletswydd).

Roedd gwybodaeth yn y Polisi Diogelu rhag Ymbelydredd Ïoneiddio am y gofynion cymhwysedd / hyfforddi sylfaenol ar gyfer rôl pob deiliad dyletswydd. Roedd hawl yn gysylltiedig â chwblhau'r gwiriadau hyfforddi a chymhwysedd perthnasol ar gyfer cyfarpar ac archwiliadau penodol. Darparwyd cofnodion hyfforddi ar gyfer amrywiaeth o staff. Roedd yr holl gofnodion wedi'u cwblhau'n ddiweddar. Fodd bynnag, nodwyd nad oeddent wedi cael eu llofnodi. Dywedwyd wrthym fod arweinydd y safle ar ddyletswydd yn y broses o adolygu'r holl gofnodion hyfforddi ac nad oedd wedi cwblhau'r broses gymeradwyo eto. Cofnodwyd hyfforddiant staff ar fatrics hyfforddi y gall staff ei ddiweddarau.

Roedd y polisi yn amlinellu cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Meddygol i sicrhau bod strwythurau hawl ar gyfer atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr ar waith yn y bwrdd iechyd. Mae'r Pwyllgor Cysylltiad Meddygol yn llunio'r strwythurau hawl ar ran y Cyfarwyddwr Meddygol ac yn sicrhau bod darpariaethau ar gyfer gwerthusiad rheolaidd o gwmpas hawl ymarferwyr a gweithredwyr yn cael eu cynnal. Roedd y Pwyllgor Cysylltiad Meddygol yn rhoi adroddiadau uniongyrchol ar ganfyddiadau i'r Fforwm Ansawdd Clinigol neu'r Cyfarwyddwr Meddygol. Fodd bynnag, nid oedd gan y staff dystiolaeth o'u hawl unigol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau fel deiliaid dyletswydd perthnasol a chwmpas eu hawl o dan y Rheoliadau. Cadarnhaodd y staff eu bod yn gallu cael gafael ar fersiynau electronig cyfredol o bolisiâu a gweithdrefnau'r cyflogwr drwy fewnryd y bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym fod gan bob aelod o'r staff fynediad at gyfrifiadur yn yr adran.

---

<sup>8</sup> O dan y Rheoliadau, mae atgyfeiriwr yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i atgyfeirio unigolion ar gyfer cysylltiadau meddygol.

<sup>9</sup> O dan y Rheoliadau, mae ymarferydd yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i fod yn gyfrifol am gysylltiad meddygol unigolyn. Prif rôl yr ymarferydd yw cyfiawnhau cysylltiadau meddygol.

<sup>10</sup> O dan y Rheoliadau, mae gweithredwr yn unigolyn sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gyflawni'r agweddau ymarferol ar gysylltiad meddygol.

Disgrifiodd yr uwch-aelodau o'r staff y system ar gyfer hysbysu staff yr adran am unrhyw newidiadau i bolisiâu a gweithdrefnau yn yr adran. Fel rhan o'r broses, roedd aelodau unigol o'r staff yn cael manylion am unrhyw ddogfennau a gafodd eu hadolygu a'u diweddarau. Wedyn, gofynnwyd i'r staff gadarnhau eu bod wedi darllen ac wedi deall y newidiadau perthnasol, a gwnaed cofnod o'r cadarnhad hwnnw a'i gadw. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn ymwybodol o'r system a oedd ar waith.

Roedd contract ar waith rhwng pob bwrdd iechyd yng Nghymru gydag Everlight Radiology<sup>11</sup>. Roedd y contract yn darparu gwasanaeth adrodd radioleg a oedd yn cynnwys cyfiawnhad y tu allan i oriau dros archwiliadau penodedig a gwerthusiadau clinigol cysylltiedig. Roedd y radiolegwyr a oedd yn gweithio o dan y contract hwn yn cael hawl grŵp fel ymarferwyr a gweithredwyr i gyfiawnhau, awdurdodi a gwerthuso'n glinigol sganiau CT y tu allan i oriau. Yn ystod yr arolygiad, nodwyd nad oedd yr adran yn cadw rhestr gyfredol o radiolegwyr Everlight. Yn dilyn hynny, cafwyd rhestr o ymarferwyr Everlight a dywedodd uwch-aelodau o'r staff y byddent yn edrych i mewn i broses o gofnodi enw'r ymarferydd sy'n cyfiawnhau'r atgyfeiriad CT ar RadIS, er mwyn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau.

Nododd y ffurflen hunanasesu fod gweinyddydd o Everlight yn ffonio'r radiograffwyr CT ar alw gydag enw'r claf a'r archwiliad i'w gyflawni. Gallai'r radiograffydd siarad ag Everlight petai angen eglurhad neu ragor o fanylder. Nid oedd enw'r ymarferydd yn cael ei gofnodi na'i gymryd fel mater o drefn. Nid yr un radiolegydd oedd yn cyfiawnhau'r cysylltiad ac yn gwerthuso'r cysylltiad yn glinigol bob amser.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff enw'r ymarferydd Everlight ei restru ar y ffurflen atgyfeirio ac, yn dilyn hynny, ar RadIS. Bydd hyn yn sicrhau bod pob cysylltiad meddygol ac anfeddygol wedi'i gyfiawnhau ac y gellir nodi'r ymarferydd unigol sy'n cyfiawnhau ac yn awdurdodi pob cysylltiad.

---

<sup>11</sup> Mae Everlight Radiology yn ddarparwr gwasanaethau teleradioleg mawr wedi'i leoli yn Llundain ac Awstralia.

## Cyfiawnhau Cysylltiadau Meddygol Unigol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau meddygol. Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r broses gyfiawnhau. Roedd cyfiawnhad dros gysylltiadau meddygol unigol yn cael ei gofnodi ar ffurflenni atgyfeirio'r adran radioleg, gan gynnwys y dyddiad a llofnod yr ymarferydd.

Gwnaethom drafod gofalwyr a chysurwyr<sup>12</sup> wrth gyflwyno gwasanaethau gydag uwch-reolwyr. Roedd gweithdrefn ar waith gan y cyflogwr mewn perthynas â chysylltiad gofalwyr a chysurwyr ag ymbelydredd ìoneiddio. Dywedwyd wrthym y byddai'r ymarferydd sy'n cyfiawnhau cysylltiad y claf hefyd yn gweithredu fel yr ymarferydd ar gyfer cysylltiad y gofalwr a'r cysurwr. Wrth gyfiawnhau cysylltiad y gofalwr a'r cysurwr ag ymbelydredd ìoneiddio, roedd yn rhaid i'r ymarferydd fod yn fodlon bod gwir angen cymorth agos gan unigolyn arall ar y claf er mwyn i'r archwiliad allu mynd rhagddo'n llwyddiannus.

Fel y disgrifir uchod, amlygwyd yn ystod trafodaethau gyda'r staff fod y cyfiawnhad dros atgyfeiriadau CT y tu allan i oriau yn cael ei ddarparu gan Everlight Radiology. Roedd hyn yn unol â'r cytundeb contract y tu allan i oriau sydd ar waith. Fodd bynnag, nid oedd enw'r ymarferydd unigol a oedd yn cyfiawnhau'r cysylltiad yn cael ei gofnodi ar y ddogfennaeth berthnasol. Ar gyfer unrhyw gysylltiad meddygol neu anfeddygol, mae angen nodi'r ymarferydd unigol sy'n cyfiawnhau'r cysylltiad.

## Optimeiddio

Optimeiddio yw'r broses o gadw cysylltiadau mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol wrth sicrhau delwedd o'r ansawdd gorau i ateb y cwestiwn clinigol. Roedd gan y cyflogwr drefniadau ar waith i optimeiddio cysylltiadau.

Disgrifiodd y ffurflen hunanasesu sut roedd ymarferwyr a gweithredwyr yn sicrhau bod y dosau'n cael eu cadw mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol. Roedd

---

<sup>12</sup> mae gofalwyr a chysurwyr yn golygu unigolion sy'n gwybod ac yn fodlon cael cysylltiad ag ymbelydredd ìoneiddio drwy helpu, ac eithrio fel rhan o'u swydd, i gefnogi a chysuro unigolion sy'n destun cysylltiad neu sydd wedi bod yn destun cysylltiad.

hyn yn cynnwys sicrhau bod cais wedi'i wneud am y moddolrwydd<sup>13</sup> cywir i gyfiawnhau'r archwiliad a bod y protocol cywir wedi'i ddilyn. Yn ogystal, byddai'r gweithredwr yn sicrhau bod ffactorau cysylltiad rhagosodedig yn cael eu hoptimeiddio i roi cyfrif am nodweddion corfforol y claf unigol. Dywedwyd wrthym fod y Bwrdd Iechyd wedi galw tîm optimeiddio delweddau amlddisgyblaethol (Grŵp Defnyddiwr CT) ynghyd, dan arweiniad arbenigwr ffiseg feddygol, i leihau'r amrywiad yn nos y claf drwy ddatblygu protocolau delweddu cytûn a rhannu arferion gorau.

#### *Lefelau cyfeirio diagnostig<sup>14</sup>*

Roedd y lefelau cyfeirio diagnostig ar gyfer yr ystafelloedd pelydr-X cyffredinol dyddiedig 2016 yn hwyr yn cael eu hadolygu ac roeddent yn cyfeirio at Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2000. Roedd yr arbenigwr ffiseg feddygol yn ymwybodol o hyn a dywedwyd wrthym fod aelod newydd o'r tîm ffiseg feddygol wedi'i benodi i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae angen i weithdrefnau'r cyflogwr ar gyfer lefelau cyfeirio diagnostig gynnwys manylion ar sut y caiff lefelau cyfeirio diagnostig lleol eu cadarnhau.

#### *Pediatreg*

Nododd y ffurflen hunanasesu fod protocolau archwilio penodol ar gael ar gyfer pediatreg a'u bod yn cael eu harddangos mewn safle amlwg y tu ôl i'r panel rheoli gyda chysylltiadau ar gyfer pob ystod oedran. Caiff y ffactorau cysylltiad rhagosodedig eu hoptimeiddio i roi cyfrif am oedran a phwysau'r claf. Roedd yr ymarferwyr yn cydbwysu'r buddiannau a'r risgiau wrth gyfiawnhau atgyfeiriad. Roedd hyn hefyd yn cynnwys y gweithdrefnau dos isel oedd ar gael wedi'u cydbwysu â brys clinigol y diagnosis. Er enghraifft, ar gyfer archwiliadau radioleg cyffredinol pediatrig, mae'r gweithredwr yn pennu'r dos gofynnol a, lle bo angen, yn addasu'r paramedrau i'r oedran priodol neu i bwysau'r claf. Dywedwyd wrthym

---

<sup>13</sup> Mae moddolrwydd (*modality*) yn derm a ddefnyddir mewn radioleg i gyfeirio at un math o ddelweddu e.e. sganio CT.

<sup>14</sup> Mae lefelau cyfeirio diagnostig yn golygu lefelau dosau mewn radiodiagnosteg feddygol neu arferion radioleg ymyriadol, neu, yn achos radio-fferylliaeth, lefelau gweithgarwch ar gyfer archwiliadau nodweddiadol o grwpiau o unigolion maint safonol neu rithiau safonol ar gyfer mathau o gyfarpar wedi'u diffinio'n fras

hefyd, er bod nifer y cysylltiadau pediatrig a gyflawnir yn isel, fod gan nifer o'r radiograffwyr ddiddordeb mewn radiograffeg bediatrig.

### *Gwerthuso clinigol*

Pwrpas y weithdrefn ar gyfer cynnal a chofnodi gwerthusiad clinigol ar gyfer pob cysylltiad oedd sicrhau bod adroddiad radiolegol ar gael i'r atgyfeiriwr ac i'r staff perthnasol eraill oedd yn ymwneud â gofal y claf. Dim ond gweithredwr â hawl addas fyddai'n cynnal gwerthusiad clinigol.

Disgrifiodd y ffurflen hunanasesu sut cafodd y gwerthusiad clinigol ei gynnal a'i dystio ar gyfer pob math o gysylltiad. Roedd y delweddau yn cael eu hadolygu gan y gweithredwr a oedd yn cyflawni'r weithdrefn. Roedd yr ysbyty yn gweithredu system dotiau coch (system canfod annormaleddau'r radiograffydd) ar gyfer pelydrau-X cyffredinol. Byddai adroddiad ffurfiol yn dilyn gan radiolegydd neu radiograffydd sy'n adrodd. Roedd rhaglen sicrhau ansawdd ar waith a oedd yn tynnu sylw at unrhyw ddelweddau heb eu hadrodd a fyddai wedyn yn cael eu dwyn i sylw'r radiograffydd neu'r radiolegydd sy'n adrodd.

Darparwyd archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) i ni mewn perthynas â chofnodi gwybodaeth am ddosau cleifion ar RadIS, a ddangosodd gydymffurfiaeth o 100 y cant. Edrychodd yr archwiliad ar sampl o gofnodion cleifion ar RadIS i sicrhau bod y gweithredwr wedi cofnodi dos y claf, unedau cysylltiad, yr ystafell archwilio / cyfarpar a ddefnyddiwyd ac enw'r archwiliad.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff adolygiad o lefelau cyfeirio diagnostig ei gynnal o fewn yr amserlen a bennwyd yng ngweithdrefn y cyflogwr.

### **Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr**

Roedd gan y cyflogwr restr gyfredol o'r cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr adran radioleg. Nododd y ffurflen hunanasesu fod yr holl gyfarpar yn yr adran radioleg wedi'i osod a'i gynnal gan beirianwyr gwasanaeth cymwys. Roedd yr arbenigwr ffiseg feddygol yn cynnal profion derbynioldeb cyn i'r cyfarpar gael ei ddefnyddio at ddibenion clinigol, wedi'u hategu gan raglen sicrhau ansawdd drefnedig. Yn ogystal â hyn, ceir rhaglen sicrhau ansawdd leol a roddir ar waith ym mhob un o'r meysydd radioleg gan ddefnyddio llawlyfr sicrhau ansawdd a ddarparwyd gan yr arbenigwr ffiseg feddygol. Adroddwyd materion sicrhau ansawdd pelydrau-X i Grŵp Cysylltiad Meddygol y bwrdd iechyd. Roedd

perfformiad cyfarpar pelydr-X yn cael ei asesu yn unol â safonau cenedlaethol a argymhellir, wedi'u hategu gan gyfarwyddiadau gwaith lleol.

Dywedwyd wrthym fod y defnydd o gyfarpar diffygiol yn cael ei stopio'n syth ar ôl iddi ddod i'r amlwg ei fod yn ddiffygiol. Roedd y staff yn cael cyfarwyddyd i beidio â defnyddio'r uned ac roedd hysbysiadau yn cael eu gosod ar y cyfarpar. Roedd y peiriannydd a oedd yn darparu'r gwasanaeth yn cael ei alw i atgyweirio'r uned. Ar ôl i'r gwaith atgyweirio gael ei gwblhau, roedd dogfennau trosglwyddo yn cael eu cwblhau cyn i'r uned gael ei defnyddio at ddibenion clinigol unwaith yn rhagor. Dywedwyd wrthym fod gan bob ystafell ddiagnostig lyfr diffygion ac y byddai partïon eraill yn cael gwybod am unrhyw broblemau drwy negeseuon e-bost a Datix<sup>15</sup>.

Roedd y staff hefyd yn gallu disgrifio'r broses lle nad oedd cyfarpar yn gweithio a'r broses o drosglwyddo cyfarpar o'r adran cynnal a chadw yn ôl i'r gwasanaeth.

## **Gofal diogel**

### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Dywedodd y staff a ymatebodd i'r holiadur nad oeddent wedi rhoi gwybod am unrhyw achosion o gysylltiad damweiniol neu rai lle nad oedd y staff yn bresennol o fewn y mis diwethaf. Dywedodd y mwyafrif helaeth o'r staff a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent wedi gweld camgymeriadau o ran diogelwch y cleifion, achosion a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau yn ystod y mis diwethaf. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno, y tro diwethaf iddynt weld camgymeriad, achos a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad, y rhoddwyd gwybod amdano.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod y staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriad, achos a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad yn cael eu trin yn deg. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cytuno bod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, achosion a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau, ac ychydig oedd yn anghytuno. Roedd pob ymatebydd ond un yn cytuno y byddai'r sefydliad yn trin adroddiadau am gamgymeriad, achos a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad yn gyfrinachol. Roedd y mwyafrif helaeth yn cytuno na

---

<sup>15</sup> Datix yw'r system a ddefnyddir gan bob bwrdd iechyd yng Nghymru i roi gwybod am ddigwyddiadau.

fyddai'r sefydliad yn beio nac yn cosbi'r bobl sy'n gysylltiedig â'r fath ddigwyddiadau ac y byddai camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn perthynas â digwyddiadau a nodwyd er mwyn sicrhau na fyddent yn digwydd eto.

Roedd pob un ond un o'r ymatebwyr a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno eu bod yn cael gwybod am gamgymeriadau, achosion a fu bron â digwydd a digwyddiadau yn y sefydliad, a'u bod yn cael adborth ar newidiadau a wneir mewn ymateb i gamgymeriadau, achosion a fu bron â digwydd a digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt.

### Atal a rheoli heintiau

Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon am lanweithdra'r adran ac roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod yr adran yn lân. Dywedodd pob un ond un o'r cleifion fod gweithdrefnau cydymffurfio â COVID-19 yn amlwg yn ystod eu hamser yn y lleoliad.

Dywedodd pob aelod o'r staff a ymatebodd fod y gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, a gwnaethant ddangos ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli heintiau yn yr adran.

Dangosodd y wybodaeth a roddwyd gan y staff fod trefniadau ar waith ar gyfer atal heintiau a dihalogi'n effeithiol yn yr adran. Dywedwyd wrthym fod y trefniadau hyn wedi'u hatgyfnerthu yn sgil COVID-19. Nododd y staff eu bod yn hyderus yn defnyddio cyfarpar diogelu personol, eu bod yn gymwys i wneud hynny a bod digon o'r cyfarpar hwn ar gael. Roedd y staff wedi cael prawf ffitio i ddefnyddio'r mwgwd FFP3<sup>16</sup>. Roedd pob aelod o'r staff ond un a gwblhaodd yr holiadur yn teimlo bod digon o staff yn y sefydliad i'w galluogi i wneud eu gwaith yn briodol.

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y trefniadau penodol sydd ar waith ar gyfer cleifion sy'n dangos symptomau COVID-19 neu gleifion y cadarnhawyd bod yr haint arnynt sy'n mynychu'r uned. Roedd hyn yn cynnwys cau'r adran i

---

<sup>16</sup> Mae mygydau FFP3 yn darparu'r lefel uchaf o ddiogelwch resbiradol y gall mwgwd untro ei chynig. Gall mwgwd FFP3 sy'n ffitio'n dda ddiogelu defnyddwyr yn erbyn mân ronynnau gwenwynig sy'n cynnwys asbestos, bacteria, feirysau a gronynnau ymbelydrol.



gleifion eraill a sicrhau bod unrhyw ddrysau ar y llwybr i'r adran yn cael eu cloi er mwyn sicrhau bod cleifion a staff eraill yn cael eu hatal rhag mynd i mewn i'r ardaloedd hyn. Yn ogystal, roedd y staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol ychwanegol ac roedd yr ardaloedd perthnasol yn cael eu glanhau'n drylwyr ar ôl eu defnyddio.

### **Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg**

Dangosodd trafodaethau â'r staff yn yr adran ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau diogelu cyfredol sydd ar waith. Dywedodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym hefyd eu bod wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein i'w helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am faterion diogelu perthnasol.

### **Gofal effeithiol**

#### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

##### *Archwilio clinigol*

Cawsom gopi o Raglen Archwilio Clinigol yr Adran Radioleg ar gyfer 2020/21. Yn ogystal, darparwyd gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol o weithdrefnau radiolegol yn ymwneud â'r Rheoliadau. Fodd bynnag, nid oedd y rhaglen na'r gweithdrefnau yn nodi amserlenni nac amllder ar gyfer yr archwiliadau, sut roedd y canfyddiadau yn cael eu rhannu na sut y byddai unrhyw argymhellion yn cael eu rhoi ar waith. Yn ogystal, nid yw'n nodi pryd y mae angen cynnal archwiliad arall ar ôl rhoi'r newidiadau ar waith. Mae angen i'r bwrdd iechyd ddiwygio'r ddogfennaeth a'r broses sydd ar waith i sicrhau bod yr hepgoriadau hyn yn cael eu hunioni.

##### *Cyngor arbenigol*

Roedd y bwrdd iechyd yn cael cyngor arbenigol gan dri arbenigwr ffiseg feddygol a gyflogwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Roedd y bwrdd iechyd yn canmol yr ymgysylltiad a'r cyngor a ddarparwyd gan yr arbenigwyr ffiseg feddygol. Roedd hyn yn cynnwys:

- Darparu gweithdai sicrhau ansawdd a gweithlyfr sicrhau ansawdd i'r staff radiograffeg
- Darparu adroddiad cryno o gynnydd i bob arweinydd safle ar ddiwedd y flwyddyn i sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu sy'n weddill yn cael eu cwblhau

- Bod yn aelod o'r Tîm Optimeiddio Delweddau CT a'r grŵp defnyddiwr CT. Nod y cyfarfodydd oedd safoni protocolau CT a dosau
- Gosod a derbyn cyfarpar newydd, materion yn ymwneud ag optimeiddio gan gynnwys cadarnhau lefelau cyfeirio diagnostig, sefydlu system rheolaeth awtomatig o gysylltiad<sup>17</sup>
- Rhoi cyngor ar ddigwyddiadau / cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol
- Y nod o sefydlu timau sicrhau ansawdd ar gyfer pob safle
- Sefydlu protocolau a chyfrannu at ysgrifennu gweithdrefnau
- Argaeledd yr arbenigwyr ffiseg feddygol fel y bo'n ofynnol gan y bwrdd iechyd.

### *Ymchwil feddygol*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ar waith mewn perthynas â chysylltiadau ymchwil feddygol. Fodd bynnag, cawsom wybod gan yr uwch-reolwyr nad oedd unrhyw ymchwil sy'n defnyddio cysylltiadau meddygol yn cael ei chynnal yn yr ysbyty ar y pryd.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y rhaglen archwilio a'r dogfennau cysylltiedig yn nodi amserlenni ac amlder ar gyfer yr archwiliadau, sut cafodd y canfyddiadau eu rhannu a sut cafodd yr argymhellion eu gweithredu. Yn ogystal, rhaid cyfeirio at pryd y mae angen ail-archwiliad ar ôl rhoi'r newidiadau ar waith.

---

<sup>17</sup> Mae system rheolaeth awtomatig o gysylltiad yn adnodd sydd ar gael ar y rhan fwyaf o unedau radiograffig modern i gynorthwyo'r radiograffydd. System ydyw a ddefnyddir i reoli'n gyson faint o ymbelydredd sy'n cyrraedd y derbynnydd delweddau drwy derfynu parhad y cysylltiad.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Cafodd strwythur rheoli â llinellau adrodd ac atebolrwydd clir ei ddisgrifio a'i arddangos.

Roedd yr adran yn cael ei rheoli'n dda, ac roedd sylwadau gan y staff yn dangos eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch-aelodau o'r staff yn yr adran. Roedd yn amlwg o'n harolygiad bod cydberthynas dda rhwng staff yr adran a'r uwch-reolwyr.

Roedd gweithdrefnau ysgrifenedig a threfniadau rheoli ar waith i helpu'r adran radioleg i gydymffurfio â Rheoliadau 2017. Fodd bynnag, roedd y rhain yn hwyr yn cael eu hadolygu ac roedd angen eu diweddarau.

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Disgrifiodd yr uwch-aelodau o'r staff eu hymgysylltiad rheolaidd â'r staff, gan gynnwys sefydlu grŵp Microsoft teams ar gyfer arweinwyr safle, i drafod materion. Roedd y materion hyn yn cael eu rhaedru i'r staff ac roedd copi o negeseuon e-bost perthnasol yn cael ei anfon at y staff.

Dywedodd y staff y gwnaethom gyfweld â nhw fod newid cadarnhaol wedi'i weld yn yr arddull rheoli'n ddiweddar. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd tîm misol. Roedd gwybodaeth yn cael ei rhaedru yn y cyfarfodydd hyn, a ddisgrifiwyd fel fforwm agored lle gallai'r staff hefyd ddwyn pryderon i sylw'r rheolwyr.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur, pe byddent yn poeni am ymarfer clinigol anniogel, y byddent yn gwybod sut i roi gwybod amdano. Dywedodd pob un ond un o'r ymatebwyr y byddent yn teimlo'n ddiogel yn mynegi pryderon am arferion clinigol anniogel. Roedd y mwyafrif helaeth yn teimlo'n hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon ar ôl iddynt roi gwybod amdanynt.

Roedd strwythur rheoli ar waith, gyda llinellau adrodd clir, a gafodd ei ddisgrifio gan uwch-aelodau o'r staff a'i ddangos drwy siart drefniadol. Gwelsom fod trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod yr adran yn gweithredu'n effeithiol.

Cyn ein harolygiad, gofynnodd AGIC i uwch-aelodau o staff yr adran gwblhau a chyflwyno ffurflen hunanasesu. Nod y ffurflen hon oedd rhoi gwybodaeth fanwl i AGIC am yr adran a pholisïau a gweithdrefnau allweddol y cyflogwr mewn perthynas â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Defnyddiwyd y ddogfen hon i lywio'r dull arolygu.

Dychwelwyd y ffurflen hunanasesu i AGIC o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno, ac roedd yn gynhwysfawr. Lle roedd angen gwybodaeth ychwanegol neu eglurder o ran yr ymatebion yn yr hunanasesiad, cawsom hyn yn ddi-oed gan uwch-aelodau o'r staff.

Ar ddiwrnodau ein harolygiad, sicrhaodd yr uwch-staff rheoli eu bod ar gael, a gwnaethant hwyluso'r broses arolygu. Roeddent yn barod i dderbyn ein hadborth ac yn dangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i'r materion a nodwyd.

## Dyletswyddau'r cyflogwr

### *Rhoi hawl*

Gwelwyd tystiolaeth o'r weithdrefn rhoi hawl i ddeiliaid dyletswydd mewn perthynas â chysylltiadau meddygol yn Atodiad Un i'r Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio. Disgrifiodd hyn sut yr oedd gan y staff hawl i fod yn atgyfeirwyr, ymarferwyr neu weithredwyr (gan gynnwys arbenigwyr ffiseg feddygol) yn unol â Rheoliad 17(1) ac Atodlen 2 (b) i'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol yn gyfrifol am sicrhau bod strwythurau hawl ar waith ar gyfer atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr yn y bwrdd iechyd. Mae'r Pwyllgor Cysylltiad Meddygol yn llunio'r strwythurau hawl ar ran y Cyfarwyddwr Meddygol ac yn sicrhau bod darpariaethau ar gyfer gwerthusiad rheolaidd o gwmpas hawl atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr yn cael eu cynnal. Mae'r Pwyllgor Cysylltiad Meddygol yn rhoi adroddiadau uniongyrchol ar ganfyddiadau i'r Fforwm Ansawdd Clinigol neu'r Cyfarwyddwr Meddygol.

Roedd atgyfeirwyr anfeddygol yn dilyn protocol ac roedd ganddynt hawl i atgyfeirio gan y Cyfarwyddwr Clinigol Radioleg. Cadwyd cofrestr gan y Rheolwr Gwasanaethau Ymbelydredd ac roedd ar gael i bob aelod o'r staff yn yr adran radioleg.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ar gyfer y broses rhoi hawl, fel y disgrifir uchod. Fodd bynnag, ni chawsom sicrwydd bod hyfforddiant a chymhwysedd a chwmpas ymarfer yn cael eu gwirio cyn rhoi hawl i sicrhau bod hyn yn adlewyrchu rôl y deiliad dyletswydd. Roedd hyn yn cynnwys staff y tu allan i'r adran radioleg. Yn ogystal, ni roddwyd gwybod i ddeiliaid dyletswydd am eu hawl gan nad oedd proses gyfredol i'r deiliaid dyletswydd ddangos eu hawl, er enghraifft llythyr neu dystysgrif

At hynny, nid oedd yn glir a oedd y cyfarwyddwr meddygol yn ymwybodol o'i rôl rhoi hawl o fewn theatrau'r ysbyty. Roedd angen egluro hyn a'i ychwanegu at weithdrefn cyflogwr y theatr

Dywedwyd wrthym fod cwmpas ymarfer yn cael ei adolygu yn yr adolygiad arfarnu perfformiad a datblygu neu pan oedd tasgau newydd yn cael eu hychwanegu megis cymhwysedd CT. Lle nad oedd aelod o'r staff yn gymwys bellach, darparwyd hyfforddiant ychwanegol. O siarad â'r staff, roedd y broses rhoi hawl a chwmpas ymarfer yn cael eu deall yn dda. Nodwyd gennym hefyd fod matrices hawl arbenigwr ffiseg feddygol yn glir ac yn cynnwys dyddiadau perthnasol.

Roedd y tablau hawl yng ngweithdrefn EP1 y cyflogwr wedi'u cyflwyno'n dda a byddai'r tablau hyn hefyd yn elwa ar gael eu cynnwys yn y Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio neu eu cysylltu â'r polisi hwnnw, a oedd yn hwyr yn cael ei adolygu hefyd.

#### *Gweithdrefnau a phrotocolau*

Roedd y Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio dyddiedig Hydref 2018 yn amlinellu'r prosesau a ddefnyddiwyd gan y bwrdd iechyd i reoli diogelwch ei gleifion, gweithwyr, ymwelwyr a'r cyhoedd o ran defnyddio ymbelydredd Ïoneiddio ar ei safleoedd. Roedd y polisi yn nodi mai'r Prif Swyddog Gweithredol yw'r swyddog sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gydymffurfio â dyletswyddau'r cyflogwr sy'n ofynnol gan yr holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelwch ymbelydredd. Gallai'r Prif Weithredwr ddirprwyo tasgau, ond nid cyfrifoldeb, am ddiogelwch ymbelydredd Ïoneiddio yn briodol trwy'r trefniadau sefydliadol er mwyn rheoli'r risgiau o ymbelydredd Ïoneiddio'n effeithiol.

Fel rhan o'r hunanasesiad, darparodd y bwrdd iechyd restr helaeth o weithdrefnau a phrotocolau i AGIC. Fodd bynnag, nodwyd bod nifer o'r gweithdrefnau a'r protocolau hyn yn hwyr yn cael eu hadolygu ac, mewn rhai achosion, nid oedd y fersiynau wedi cael eu rheoli. Roedd y rhain yn cynnwys gweithdrefnau'r cyflogwr, y Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio a'r protocolau ysgrifenedig ar gyfer radiograffeg gyffredinol (dyddiedig 2013) a

lefelau cyfeirio diagnostig CT a phelydrau-X cyffredinol. Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod y Grŵp Cysylltiad Meddygol, a oedd yn adolygu gweithdrefnau, wedi'i ganslo ym mis Tachwedd 2020. Roedd hyn yn sgil COVID-19 a phwysau'r gaeaf, a chaiff dogfennau eu hadolygu ym mis Ebrill 2021.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw, fel rhan o'n harolygiad, eu bod yn gallu cael gafael ar fersiynau cyfredol o'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith. Hefyd, cadarnhaodd yr uwch-aelodau o'r staff fod staff yr adran yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau i ddogfennau, a bod gofyn iddynt gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y newidiadau perthnasol.

Gwnaed nifer o awgrymiadau yn ystod ein sgysiau â'r uwch-reolwyr o ran y manylion sydd yn y dogfennau ar hyn o bryd, er mwyn helpu â'r broses barhaus o ddiwygio'r ddogfen. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Nid oedd EP1 yn nodi pryd y byddai cwmpas ymarfer unigolion yn cael ei adolygu, er enghraifft yn ystod arfarniad neu'n flynyddol. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried cynnwys amllder yr adolygiadau yn y weithdrefn hon
- Roedd y pecyn sefydlu a ddarparwyd yn gyffredinol ac roedd diffyg manylion ynddo ynghylch gofynion y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) neu gydymffurfiaeth â nhw. Er enghraifft, dylai hyn gynnwys yr angen i ddarllen gweithdrefnau a pholisi diogelwch ymbelydredd y cyflogwr, sut i dderbyn atgyfeiriad, y defnydd o ganllawiau awdurdodi, y broses rhoi hawl ac ati. Dywedodd yr uwch-aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn y broses o adolygu a diweddarau'r ddogfen hon
- EP 6, mae angen ystyried cynnwys sut y caiff canllawiau awdurdodi eu defnyddio gan weithredwyr i awdurdodau atgyfeiriadau gan nad yw hyn yn cael ei gynnwys ar hyn o bryd
- EP 10, mae angen i gofnodion dosau gynnwys manylion unedau dosau i'w cofnodi ar gyfer sgrinio yn y theatr
- EP 11, ychwanegu sut y cafodd lefelau cyfeirio diagnostig eu cymeradwyo cyn cael eu rhoi ar waith yn glinigol
- Dylai gweithdrefnau'r cyflogwr mewn theatrau gael eu diwygio hefyd i gynnwys Atodlen 2(i), sy'n ymwneud â chyfleu gwybodaeth am fuddiannau a risgiau. Cytunodd y bwrdd iechyd i ychwanegu hyn at y weithdrefn a chadarnhau a oedd hyn yn rhan o restr wirio lawfeddygol

Sefydliad Iechyd y Byd<sup>18</sup>. Yn ogystal, yr angen i gwblhau asesiad diogelwch a pherfformiad pelydr-X (sicrhau ansawdd cyfarpar) yn rheolaidd yn ôl argymhelliad yr arbenigwr ffiseg feddygol (nid yw hyn yn cael ei wirio gan yr arbenigwr ffiseg feddygol ar hyn o bryd). Yn y dyfodol, cytunwyd y byddai'r Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd<sup>19</sup> o'r theatrau yn cael ei wahodd i'r MEG i drafod yr archwiliadau blynyddol ar yr uned fach braich-C<sup>20</sup>.

### *Cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer rhoi gwybod am gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol yn yr adran ac ymchwilio iddynt. Roedd gweithdrefn y cyflogwr yn nodi'r broses y dylai'r staff ei dilyn os byddent yn amau bod cysylltiad damweiniol neu anfwriadol sylweddol wedi digwydd. Roedd y weithdrefn yn rhoi gwybodaeth i'r staff am y broses i'w dilyn ac, o ganlyniad, roedd AGIC yn cael gwybod am ddigwyddiadau o'r fath mewn modd amserol. Fodd bynnag, mae angen adolygu a diweddarau'r weithdrefn i gynnwys dolenni i ganllawiau ar gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol, diffiniad o ddamweiniol ac anfwriadol ac ystyriaeth o effeithiau ffisiolegol cysylltiad anfwriadol neu ddamweiniol clinigol sylweddol ar yr unigolyn. Yn ogystal, wrth adolygu, dylai'r cyfeiriadau at y "Cyfarpar a ddefnyddir mewn cysylltiad â chysylltiad meddygol. Nodyn Canllaw PM77 (trydydd argraffiad). HSE. 2006" a'r "Canllawiau ar ymchwilio i gysylltiadau meddygol sy'n llawer mwy na'r hyn a fwriadwyd, a rhoi gwybod amdanynt. Yr Adran Iechyd. 2017" gael eu diweddarau er mwyn adlewyrchu canllawiau cyfredol.

---

<sup>18</sup> Datblygwyd Rhestr Wirio Diogelwch Llawfeddygol Sefydliad Iechyd y Byd ar ôl ymgynghori helaeth gyda'r nod o leihau gwallau a digwyddiadau andwyol a chynyddu gwaith tîm a chyfathrebu ym maes llawdriniaeth. Mae'r rhestr wirio, sy'n cynnwys 19 o eitemau, wedi mynd ymlaen i ddangos gostyngiad sylweddol mewn afiachusrwydd a marwolaeth ac mae bellach yn cael ei defnyddio gan fwyafrif o ddarparwyr llawfeddygol ym mhedwar ban byd.

<sup>19</sup>Penodir Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd at y diben o sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ïoneiddio.

<sup>20</sup> Mae uned fach braich-C yn beiriant pelydr-X sy'n sganio ardal benodol o'r corff, rhan uchaf y corff fel arfer, gan alluogi clinigwyr i edrych ar y canlyniadau mewn amser real, yn fyw ar y sgrin monitro yn ystod llawdriniaeth.

Roedd y staff a gafodd eu cyfweld yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod am gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol. Nododd yr uwch-reolwyr fod y weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod ac ymchwilio hefyd yn cynnwys siarad â'r arbenigwr ffiseg feddygol i gadarnhau a oedd y digwyddiad yn hysbysadwy i'r awdurdod rheoleiddio, AGIC. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael gwybod drwy negeseuon e-bost a chyfarfodydd staff am unrhyw risgiau ychwanegol neu hysbysiadau diogelwch, rhybuddion a chyfathrebiadau eraill. Dywedodd y staff eu bod yn cael gwybod am ddigwyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd er mwyn atal unrhyw ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol. Roedd cofnod ar gyfer pob maes / moddolrwydd hefyd, i gofnodi unrhyw un o'r achosion hyn a'r gwersi a ddysgwyd. Roedd yn rhaid i staff lofnodi'r rhain i ddangos eu bod yn ymwybodol o'r materion.

Cawsom wybod bod unrhyw ddigwyddiadau neu ddigwyddiadau a fu bron â digwydd yn cael eu cofnodi drwy Datix. Roedd digwyddiadau ymbelydredd yn cael eu dwyn i sylw'r radiograffydd arweiniol ar gyfer y moddolrwydd penodol er mwyn gallu dosbarthu a thrafod y gwersi a ddysgwyd o'r digwyddiad. Roedd yr adroddiadau yn cael eu hadolygu yng nghyfarfod grŵp arweinwyr y safle ac, yn dilyn hynny, gyda'r tîm gweithredol. Dim ond dadansoddiadau rhifol a ddarparwyd o ran gwybodaeth am ddigwyddiadau. Nid oedd unrhyw fanylion yn y wybodaeth a welsom o ran manylion penodol y digwyddiadau na dadansoddiad manwl o ddigwyddiadau ymbelydredd ac achosion a fu bron â digwydd. Dylai'r dadansoddiad hwn amlygu tueddiadau, rhoi gwybod a yw'r digwyddiadau wedi'u cau a pha gamau a gymerwyd i sicrhau bod modd dysgu ar y cyd a nodi newidiadau mewn arferion i wella diogelwch y cleifion.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod hyfforddiant, cymhwysedd a chwmpas ymarfer yn cael eu gwirio cyn rhoi hawl, er mwyn sicrhau bod hyn yn adlewyrchu rôl y deiliad dyletswydd, gan gynnwys y staff y tu allan i'r adran radioleg
- Bod deiliaid dyletswydd yn cael gwybod am eu hawl, er enghraifft, drwy lythyr neu dystysgrif
- Bod y cyfarwyddwr meddygol yn ymwybodol o'i rôl rhoi hawl mewn theatrau a bod hyn yn cael ei egluro ymhellach a'i ychwanegu at weithdrefn cyflogwr y theatr
- Bod holl weithdrefnau, polisiau a phrotocolau'r cyflogwr sy'n hwyr yn cael eu hadolygu yn cael eu hadolygu a'u diweddarau.



Rhaid sicrhau eu bod yn gyfredol, yn cael eu hadolygu'n amserol ac yn adlewyrchu'r arferion a'r trefniadau sydd ar waith, gan gynnwys mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn adran gweithdrefnau a phrotocolau'r adroddiad hwn

- Bod dadansoddiad manwl yn cael ei gynnal, gan gynnwys themâu a thueddiadau cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol gan gynnwys achosion a fu bron â digwydd. Dylid nodi'r camau a gymerwyd i sicrhau bod modd dysgu ar y cyd a'r newidiadau a roddwyd ar waith i wella diogelwch y cleifion
- Bod y gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol mewn perthynas â chysylltiadau damweiniol neu anfwriadol yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'n gywir ganllawiau cyfredol a gofynion proses cofnodi digwyddiadau AGIC
- Bod gweithdrefnau'r cyflogwr ar gyfer theatrau yn cael eu diweddarau i gynnwys sut y caiff gwybodaeth am fuddiannau a risgiau ei rhoi i gleifion cyn y cysylltiad.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Nododd pob aelod o'r staff a gyfwelwyd fod nifer a chymysgedd sgiliau'r staff yn yr adran yn briodol ac yn ddiogel. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn ystyried symud i system sifftiau, a fyddai'n gofyn am fwy o staff ac adolygiad o'r rolau cyfredol. Roedd y Pennaeth Radioleg ar gyfer y bwrdd iechyd hefyd o'r farn bod angen rhagor o staff cymorth, er enghraifft ymarferwyr cynorthwyol.

Dyweddodd y staff eu bod yn cael eu goruchwyllo a'u harfarnu'n rheolaidd. Roedd mentor yn cael ei bennu ar gyfer aelodau newydd o'r staff i ddarparu cyngor a hyfforddiant yn yr adran. Roedd y Pennaeth Radioleg yn monitro cydymffurfiaeth flynyddol y staff â phroses PADR.

Dyweddodd pob un ond un o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu o'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd y mwyafrif helaeth a gafodd arfarniad fod eu hanghenion dysgu neu ddatblygu wedi cael eu nodi a gwnaethant ddweud wrthym fod eu rheolwr bob amser yn eu cefnogi i ddiwallu'r anghenion hyn.

Dyweddodd yr uwch-aelodau o'r staff wrthym fod cyfleoedd hyfforddiant a datblygu perthnasol ar gael i'r staff i'w cefnogi yn eu rôl. Roedd gan bob aelod o'r staff fynediad i adnoddau dysgu electronig. Roeddent yn cael eu hannog i ddefnyddio'r rhain a rhoddwyd amser iddynt gwblhau'r hyfforddiant hwn. Roedd

angen i unrhyw aelod o'r staff oedd yn dymuno cwblhau hyfforddiant ychwanegol drafod hyn gyda'i reolwr llinell. Roedd yn rhaid cynnwys hyn ar ei adolygiad PADR hefyd a byddai unrhyw geisiadau'n cael eu hystyried a'u cytuno os oeddent er budd i'r gwasanaeth.

Nododd y rhan fwyaf o'r staff yn yr holiaduron eu bod wedi ymgymryd â dysgu a datblygu mewn meysydd fel iechyd a diogelwch, diogelwch tân a rheoli heintiau. Yn ogystal, dywedodd y staff iddynt gael hyfforddiant ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol) sy'n berthnasol i'w gweithrediadau fel ymarferydd neu weithredwr, yn ymwneud â maes ymarfer arbenigol, a hyfforddiant arall yn ystod y 12 mis diwethaf.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur fod hyfforddiant neu ddysgu a datblygiad yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ei fod wedi eu helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ofynion proffesiynol ac i ddarparu profiad gwell i'r cleifion.

Gofynnwyd i'r staff ysgrifennu ar yr holiadur pa hyfforddiant roeddent yn dymuno'i fynychu, ac mae rhai o'r ymatebion wedi'u copïo isod:

*"Cynnal Bywyd Sylfaenol"*

*"Edrych ar ddelweddau gyda'r rhai sy'n adrodd"*

Dywedodd yr uwch-aelodau o'r staff wrthym mai dim ond un aelod o'r staff yn yr adran oedd wedi cael yr hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol diweddaraf, ond roedden nhw wedi bod yn ceisio dod o hyd i ddarparwr hyfforddiant.

Disgrifiwyd y mentrau llesiant newydd a gyflwynwyd i gefnogi staff oherwydd COVID-19, a oedd yn cynnwys tudalennau mewnwyd ychwanegol ac adnoddau llesiant ar-lein. Yn ogystal, roedd mwy o adnoddau ymwybyddiaeth ofalgar wedi'u darparu ac roedd y staff yn cael eu hannog i'w defnyddio. Rhoddwyd gwybod i'r staff oedd ar gyfnod gwarchod am yr adnoddau hyn hefyd.

Roedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno bod eu rheolwr uniongyrchol yn cymryd diddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd a'u llesiant, a bod eu sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a llesiant. Roedd ychydig dros hanner o'r staff yn cytuno bod eu patrwm gwaith cyfredol yn caniatáu ar gyfer cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Dywedodd pob aelod o'r staff eu bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael. Dywedodd y mwyafrif o'r staff eu bod wedi cael cynnig cefnogaeth lawn yn ystod sefyllfaoedd heriol.

Gofynnwyd i'r staff yn yr holiaduron sgorio pa mor aml yr oedd nifer o ddatganiadau yn ymwneud â'u sefydliad yn berthnasol yn eu profiad nhw. Dywedodd y mwyafrif a gwblhaodd holiadur fod y sefydliad yn annog gwaith tîm ac roeddent o'r farn bod y sefydliad yn gefnogol. Cytunodd pob aelod o'r staff fod gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n ymdrin â'r cleifion yn cael eu grymuso i ddweud eu dweud a chymryd camau gweithredu pan fydd materion yn codi.

Dywedodd pob aelod o'r staff ond dau fod diwylliant o fod yn agored a dysgu yn y sefydliad sy'n helpu'r staff i nodi problemau a'u datrys. Roedd y mwyafrif a ymatebodd o'r farn bod gan y sefydliad fynediad i'r wybodaeth gywir i fonitro ansawdd y gofal ym mhob ymyriad clinigol ac i weithredu'n gyflym pan fydd diffygion. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr eu bod yn hapus ag ymdrechion y sefydliad i'w cadw nhw a'r cleifion yn ddiogel.

Holwyd y staff yn yr holiadur am eu rheolwr uniongyrchol, ac roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan. Gwnaeth aelodau o'r staff y sylwadau canlynol:

*"Mae fy rheolwr uniongyrchol yn fy nghynnwys ym mhob penderfyniad sy'n effeithio ar fy maes gwaith. Mae hi'n fy helpu pan na fyddaf yn siŵr o rywbeth ac yn fy annog ym mhob rhan o'm swydd"*

*"Mae ein tîm rheoli newydd wedi gwyrddroi morâl yn llwyr yn yr ysbyty. Rydyn ni bellach yn teimlo'n aelodau gwerthfawr o'r tîm sy'n cael eu parchu ac sy'n ymdrechu i wneud ein gorau ar gyfer gofal cleifion"*

*"Mae gennym Arweinydd Safle a Dirprwy Arweinydd Safle rhagorol a rhagweithiol yn yr adran Radioleg. Mae'r ddau'n gymharol newydd i'w swydd ond yn cael effaith fawr a chadarnhaol."*

Dywedodd bron pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod yn gwybod pwy oedd yr uwch-reolwyr yn y sefydliad. Gwnaethant ddweud hefyd fod yr uwch-reolwyr yn ceisio cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig a gweithredu mewn ymateb i adborth gan y staff. Dywedodd y mwyafrif ohonynt fod yr uwch-reolwyr yn ymrwymedig i ofal cleifion. Dywedodd pob un ond un o'r ymatebwyr fod eu sefydliad yn gweithredu'n deg o safbwynt camu ymlaen yn eich gyrfa neu gael dyrchafiad, ac nad oedd unrhyw wahaniaethu ar sail cefndir ethnig, rhywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd nac oedran. Dywedodd pob aelod o'r staff nad oeddent wedi cael profiad personol o wahaniaethu yn y gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf.

Yn yr holiaduron, rhoddwyd nifer o ddatganiadau i'r staff yn ymwneud â pha mor dda roedd y sefydliad wedi addasu i gydymffurfio â COVID-19. Cytunodd pob aelod o'r staff ond un fod y sefydliad wedi rhoi'r newidiadau

amgylcheddol/ymarfer a'r trefniadau dihalogi angenrheidiol ar waith ar gyfer cyfarpar ac ardaloedd perthnasol.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn yr adran yn cael hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol, a dod o hyd i ddarparwr hyfforddiant angenrheidiol yn ddi-oed.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio

AGIC sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â [Rheoliadau Ymbelydredd ìoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2017](#) ac fel y'u diwygiwyd ([2018](#)).

Nod y rheoliadau yw sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu diogelu rhag cysylltiad anfwriadol, gormodol neu anghywir ag ymbelydredd meddygol ac, ym mhob achos, fod y risg sy'n gysylltiedig â chysylltiad yn cael ei hasesu yn erbyn y budd clinigol
- Nid yw cleifion yn cael eu hamlygu'n fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau'r budd a ddymunir o fewn terfynau'r dechnoleg bresennol
- Mae gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil feddygol yn cael eu diogelu

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â'r [Rheoliadau Ymbelydredd ìoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\)](#)
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)
- Cyrraedd unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill lle y bo'n gymwys

Fel arfer, rhoddir rhybudd am ein harolygiadau o wasanaethau gofal iechyd sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio. Caiff gwasanaethau hyd at saith wythnos o rybudd am arolygiad.

Cynhelir yr arolygiadau gan o leiaf un o arolygwyr AGIC ac fe'u cefnogir gan un o Uwch-swyddogion Clinigol Public Health England, sy'n gweithredu fel cynghorydd.

Cyn yr arolygiad, mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau ffurflen hunanasesu a darparu dogfennaeth ategol yn dystiolaeth. Mae'r arolwg o bell dros gyfnod o ddeuddydd yn cynnwys trafodaethau â'r uwch-reolwyr a'r staff gweithredol sy'n gweithio yn yr adran, mewn perthynas â'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith.

Er mwyn ein galluogi i gasglu barn ychwanegol, caiff arolygon cleifion a staff perthnasol eu cynnal yn ystod yr wythnosau cyn ein harolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal sy'n ymwneud ag ymbelydredd ïoneiddio.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.



## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

**Ysbyty: Ysbyty Tywysog Philip**

**Ward/adran: Delweddu Diagnostig**

**Dyddiad arolygu: 23 a 24 Chwefror 2021**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch				

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Ysbyty: Ysbyty Tywysog Philip

### Ward/adran: Delweddu Diagnostig

### Dyddiad arolygu: 23 a 24 Chwefror 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i hysbysu'r cleifion sy'n ymweld â'r adran am amseroedd aros presennol mewn ffordd well.	5.1 Mynediad amserol	Bydd bwrdd gwybodaeth yn cael ei osod yn ardal y dderbynfa.  Bydd amseroedd aros bras yn cael eu diweddarau'n rheolaidd ar gyfer pob moddolrwydd.	Pennaeth Radioleg	30 Mehefin 2021
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi gwybod i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd er mwyn rhoi gwybodaeth i gleifion am eu hymatebion i arolygon, gyda chamau gweithredu'n cael eu cymryd mewn ymateb i'r adborth.	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	Fel uchod.  Bydd y bwrdd gwybodaeth yn cynnwys adran 'dywedoch chi, gwnaethon ni' sy'n cael ei diweddarau'n fisol	Pennaeth Radioleg	30 Mehefin 2021

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Bydd hwn yn cael ei gyflwyno mewn adrannau radioleg ar draws y pedwar safle aciwt		
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff adolygiad o weithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ei gynnal mewn perthynas ag ymholiadau i feichiogrwydd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod digon o fanylion am y broses y dylai'r staff ei dilyn, ar gyfer pob math o glaf y gallant ddod ar ei draws. Yn ogystal, dylai'r adolygiad hwn gynnwys y ffordd y caiff amrywiaeth o ran rhywedd ei hystyried a'i rheoli.	Rheoliad 6 Atodlen 2 1(c) Rheoliad 11(1)(f)	Bydd yr holl weithdrefnau ysgrifenedig yn cael eu hadolygu, eu diweddarau a'u cyflwyno i'r Grŵp Diogelu Rhag Ymbelydredd nesaf i'w cymeradwyo. Mae hyn wedi'i amserlennu ar gyfer 20 Ebrill 2021 ar ôl cael ei ohirio yn 2020 mewn ymateb i bwysau'r pandemig	Pennaeth Radioleg	31 Mai 2021
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff enw'r ymarferydd Everlight ei restru ar y ffurflen atgyfeirio ac, yn dilyn hynny, ar RadIS. Bydd hyn yn sicrhau bod pob cysylltiad meddygol ac anfeddygol wedi'i gyfiawnhau ac y gellir nodi'r ymarferydd unigol sy'n cyfiawnhau ac yn awdurdodi pob cysylltiad.	Rheoliad 6 Atodlen 2 1 (b)	Mae'r staff eisoes wedi cychwyn ar y broses o ychwanegu'r ymarferydd Everlight at y ffurflen atgyfeirio ac, yn dilyn hynny, ar RadIS. PACS.  I'w hadolygu a'i harchwilio ar ôl cyfnod o 3 mis	Pennaeth Radioleg	Cwblhawyd  30 Mehefin 2021

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff adolygiad o lefelau cyfeirio diagnostig ei gynnal o fewn yr amserlen a bennwyd yng ngweithdrefn y cyflogwr.	Rheoliad 6 (5)(c) Atodlen 2 1(f)	Cysylltir â'r adran Ffiseg Feddygol i gael diweddariad.  Bydd y Grŵp Diogelu Rhag Ymbelydredd yn ailedrych ar y Rhaglen Adolygu Lefelau Cyfeirio Diagnostig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth	Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol (Peirianeg Feddygol, Ffisegol a Chlinigol)	Cwblhawyd  31 Mai 2021
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y rhaglen archwilio a'r dogfennau cysylltiedig yn nodi amserlenni ac amllder ar gyfer yr archwiliadau, sut cafodd y canfyddiadau eu rhannu a sut cafodd yr argymhellion eu gweithredu. Yn ogystal, rhaid nodi pryd y mae angen archwiliad arall ar ôl rhoi'r newidiadau ar waith.	3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi  Rheoliad 7	I'w drafod a'i ddiweddarau yn y Grŵp Diogelu Rhag Ymbelydredd ym mis Ebrill 2021  Bydd yr holl ganfyddiadau'n cael eu rhannu yn y Grŵp Diogelu Rhag Ymbelydredd a'r grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion Radioleg	Pennaeth Radioleg	31 Mai 2021
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>Bod hyfforddiant, cymhwysedd a chwmpas ymarfer yn cael eu gwirio cyn rhoi hawl, er mwyn sicrhau bod hyn yn adlewyrchu rôl y deiliad</li> </ul>	Rheoliad 6(3)(b)	I'w drafod a'i gymeradwyo yn y Grŵp Diogelu Rhag Ymbelydredd ym mis Ebrill 2021 cyn cael ei raedru i'r staff perthnasol.	Pennaeth Radioleg	31 Mai 2021

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>dyletswydd, gan gynnwys y staff y tu allan i'r adran radioleg</p>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>Bod deiliaid dyletswydd yn cael gwybod am eu hawl, a'u bod yn ymwybodol o gwmpas penodol eu hymarfer, er enghraifft drwy lythyr neu dystysgrif</li> </ul>	<p>Rheoliad 6 Atodlen 2 1(b)</p>	<p>Bydd llythyr / tystysgrif yn cael ei ddrafftio / drafftio a'i adolygu / hadolygu yn y Grŵp Diogelu Rhag Ymbelydredd i'w ddefnyddio / defnyddio ar ôl ei gymeradwyo / chymeradwyo</p>	<p>Pennaeth Radioleg / Cyfarwyddwr Clinigol Radioleg</p>	<p>31 Mai 2021</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Bod y cyfarwyddwr meddygol yn ymwybodol o'i rôl rhoi hawl mewn theatrau a bod hyn yn cael ei egluro ymhellach a'i ychwanegu at weithdrefn cyflogwr y theatr</li> </ul>	<p>Rheoliad 6 Atodlen 2 1(b)</p>	<p>Bydd y weithdrefn yn cael ei hadolygu, ei diweddarau a'i chyflwyno i'w cymeradwyo yn y Grŵp Diogelu Rhag Ymbelydredd ym mis Ebrill 2021, ac yna'i lledaenu i'r staff priodol.</p>	<p>Pennaeth Radioleg</p>	<p>31 Mai 2021</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Bod holl weithdrefnau, polisiau a phrotocolau'r cyflogwr sy'n hwyr yn cael eu hadolygu yn cael eu hadolygu a'u diweddarau. Rhaid sicrhau eu bod yn gyfredol, bod fersiynau'n cael eu rheoli a'u hadolygu'n amserol a'u bod yn adlewyrchu'r arferion a'r trefniadau sydd ar waith, gan gynnwys mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn</li> </ul>	<p>Rheoliad 6 (5)(b) Atodlen 2 1(d)</p>	<p>Bydd yr holl weithdrefnau ysgrifenedig yn cael eu hadolygu, eu diweddarau a'u cyflwyno i'r Grŵp Diogelu Rhag Ymbelydredd nesaf i'w cymeradwyo. Mae hyn wedi'i amserlennu ar gyfer 20 Ebrill 2021 ar ôl cael ei ohirio yn 2020 mewn ymateb i bwysau'r pandemig.</p>	<p>Pennaeth Radioleg</p>	<p>31 Mai 2021</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>adran gweithdrefnau a phrotocolau'r adroddiad hwn</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bod dadansoddiad manwl yn cael ei gynnal sy'n cynnwys themâu a thueddiadau cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol, gan gynnwys achosion a fu bron â digwydd. Dylid nodi'r camau a gymerwyd i sicrhau bod modd dysgu ar y cyd a'r newidiadau a roddwyd ar waith i wella diogelwch y cleifion</li> <li>Bod y gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol mewn perthynas â chysylltiadau damweiniol neu anfwriadol yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'n gywir ganllawiau</li> </ul>				
	Rheoliad 8(3)	<p>Cynhelir adolygiad a dadansoddiad blynyddol o'r holl ddigwyddiadau perthnasol y rhoddwyd gwybod amdanynt a'u cyflwyno i'r Grŵp Diogelu Rhag Ymbelydredd (mae gan y System Rheoli Pryderon newydd, Unwaith i Gymru, godau pryderon gwell a fydd yn golygu bod modd nodi digwyddiadau sy'n gysylltiedig â radioleg a llunio themâu o'r hyn a ddysgir).</p> <p>Bydd adroddiadau chwarterol (perthnasol) am ddigwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt yn cael eu darparu i'r Grŵp Diogelu Rhag Ymbelydredd</p>	<p>Pennaeth Radioleg gyda chymorth y Tîm Sicrhau Ansawdd a Diogelwch</p> <p>Tîm Sicrhau Ansawdd a Diogelwch</p>	<p>30 Ebrill 2022</p> <p>31 Gorffennaf 2021</p>
	Rheoliad 8(4)(b)(iv)	Bydd yr holl weithdrefnau ysgrifenedig yn cael eu hadolygu, eu diweddarau a'u cyflwyno i'r Grŵp Diogelu Rhag Ymbelydredd nesaf i'w cymeradwyo. Mae hyn wedi'i amserlennu ar gyfer 20	Pennaeth Radioleg	31 Mai 2021

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cyfredol a gofynion proses cofnodi digwyddiadau AGIC		Ebrill 2021 ar ôl cael ei ohirio yn 2020 mewn ymateb i bwysau'r pandemig		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Bod gweithdrefnau'r cyflogwr ar gyfer theatrau yn cael eu diweddarau i gynnwys sut y caiff gwybodaeth am fuddiannau a risgiau ei rhoi i gleifion cyn y cysylltiad.</li> </ul>	Rheoliad 6 Atodlen 2 (1)(i)	Bydd yr holl weithdrefnau ysgrifenedig yn cael eu hadolygu, eu diweddarau a'u cyflwyno i'r Grŵp Diogelu Rhag Ymbelydredd nesaf i'w cymeradwyo. Mae hyn wedi'i amserlennu ar gyfer 20 Ebrill 2021 ar ôl cael ei ohirio yn 2020 mewn ymateb i bwysau'r pandemig	Pennaeth Radioleg	31 Mai 2021
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn yr adran yn cael hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol a dod o hyd i ddarparwr hyfforddiant angenrheidiol yn ddi-oed.	7.1 Y Gweithlu	Bydd yr adran hyfforddiant Dadebru yn cael rhestr o bob aelod o'r staff sydd heb gael yr hyfforddiant.  Bydd hyfforddiant yn cael ei drefnu ar gyfer pob aelod o'r staff sydd heb gael yr hyfforddiant	Pennaeth Radioleg  Pennaeth Radioleg / Adran Ddadebru	23 Ebrill 2021  30 Mehefin 2021

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth



**Enw (priflythrennau): Amanda Evans**

**Teitl swydd: Rheolwr Gwasanaethau Radioleg**

**Dyddiad: 8.4.2021**